Cyngor Celfyddydau Cymru

# Ein Lle Ni - Rhaglen Ymgysylltu ar gyfer Cynulleidfaoedd Newydd

Tachwedd 2014

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Cyflwyniad

Nod rhaglen Ein Lle Ni yw cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a pherswadio rhagor o bobl i fwynhau'r Celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Ers ei lansio yn 2012, rydym wedi cefnogi nifer o brosiectau llwyddiannus â'r nod o ymgysylltu â chynulleidfaoedd lleol mewn ffyrdd newydd ac arloesol.

Ym mis Medi 2014, roeddem wedi comisiynu ymchwil i raglen Ein Lle Ni hyd yn hyn. Ar y cyfan, mae'r cynllun wedi cael derbyniad gwresog a nodwyd sawl llwyddiant arwyddocaol - yn eu plith gweithio mewn partneriaeth a'r posibiliadau ar gyfer lleoliadau i chwarae rhan sy'n fwyfwy arwyddocaol yn lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu cymunedau lleol . Mae'r ymchwil gan Les Cymru yn cefnogi hyn.

Serch hynny, mae o hyd lawer o bobl na all fynychu digwyddiad celfyddydol neu na fyddai'r syniad o'i wneud yn croesi eu meddwl. Mae llawer o resymau yn eu hatal rhag cymryd rhan. Felly rydym yn ail-lansio'r cynllun gyda ffordd fwy targedol o fynd ati sydd wedi'i anelu at leoliadau'n unig. Rydym yn gobeithio y gellwch ein cyffroi gyda'ch cynigion i ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd lleol mewn ffyrdd trawsnewidiol a chynaliadwy.

Ond nid rhagor o'r un hen beth sydd arnom ei eisiau. Felly erbyn hyn rydym am ichi ein cyffroi gyda'ch syniadau newydd a llawn dychymyg i berswadio rhagor o bobl i ymwneud â'ch gweithgareddau. Nid ydym am gael ateb cyflym ond annigonol - buddsoddiad ychwanegol yn eich cyllideb farchnata neu'r hen fathau cyfarwydd o brosiectau tymor byr i ddatblygu cynulleidfa. Rydym yn chwilio am raglenni datblygu cyffrous ac arloesol sy'n archwilio tiriogaeth a syniadau newydd – rhaglenni a fydd yn apelio at gymunedau o ddiddordeb newydd a gwahanol. A hefyd hoffem edrych ar y tymor hwy gyda syniadau a fydd yn atynnu pobl newydd a'u perswadio i ddychwelyd.

Syniadau newydd, arloesol a rhyngweithiol yw'r rhai tebycaf i fynd â'n bryd. Byddant yn profi ffyrdd newydd o weithio ac o bosibl yn defnyddio technolegau newydd, ond byddant hefyd yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau celyd. Byddant yn hyrwyddo a chefnogi cydweithio ac arddangos gwir ymrwymiad i ddod o hyd i gynulleidfaoedd newydd ar gyfer y celfyddydau a'u tyfu.

## Am bwy yr ydym yn sôn?

Mae gennym ddiddordeb neilltuol mewn cyrraedd y cynulleidfaoedd sydd, am ba bynnag rheswm, yn teimlo'n heb eu cysylltu â'r Celfyddydau neu sy'n wynebu rhwystrau penodol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn y Celfyddydau. O bosibl y bydd y rhain yn cynnwys llawer o bobl o sawl gwahanol gefndir nad ydynt yn ymgysylltu â'r Celfyddydau. Rydym am ichi feddwl am ffyrdd creadigol a llawn dychymyg o ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd hyn a dangos inni sut yr ewch o gwmpas hyn.

## Cydweithio creadigol a phartneriaethau

Mae ymchwil yn dangos bod gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn ganlyniad hynod o gadarnhaol o'r rhaglen hon, felly rydym unwaith eto'n rhoi pwyslais ar yr agwedd hon. Rydym am weld sefydliadau celfyddydol yn cydweithio â'i gilydd a/neu ag ystod o wahanol bartneriaid lleol. Mae profiad wedi dangos inni mai'r prosiectau mwyaf llwyddiannus a chyffrous yw'r rhai y mae gwaith partneriaeth wrth eu gwraidd.
Ni fyddwn yn deddfu am natur y partneriaethau nac am eu maint neu eu cynnwys. Rydym yn agored i'ch syniadau a'ch cynigion. Ond cofiwch y chwiliwn am gydweithio sy'n gwthio ffiniau ac sy'n arloesol ac yn gyffrous.

Os gellwch ein hargyhoeddi ynghylch eich dewisiadau, byddwch wedi cymryd y cam cyntaf ar y llwybr i'n perswadio i ariannu eich cynnig.

## Sut bydd hyn oll yn gweithio?

Nid ateb rhwydd sydd ei angen yma. Rydym yn chwarae gêm hir a dylech chi fod yn chwarae gêm debyg hefyd. Rydym yn chwilio am syniadau sy'n newydd a chyffrous, ond hefyd yn gyflawnadwy ac, yn bwysicaf oll, yn gynaliadwy. Ceisiwn brosiectau a all **ddechrau yn gynnar yn 2015.**

Megis y tro diwethaf, rydym yn mynd i gynnal y prosiect mewn dwy ran:

Bydd Rhan 1 yn ymwneud ag **ymchwil a datblygiad**. Rydym am i'r prosiectau gael sail gadarn o dystiolaeth, gyda dealltwriaeth glir o'r rhesymau y tu ôl i wneud y gweithgarwch yr ydych yn ei gynnig. Rydym yn gwahodd sefydliadau i gyflwyno syniadau am brosiectau y maent am eu datblygu. O'r rhain, byddwn yn dewis y prosiectau hyn sy'n cynrychioli'r rhai mwyaf cyffrous ac arloesol o ran eu ffordd o gyrraedd y gynulleidfa darged a byddwn yn cynnig arian i ymgymryd ag ymchwil a datblygu syniadau'n gynigion a chynlluniau llawnion. Os teimlwch y bydd eich ffordd chi'n ymgysylltu â thechnoleg newydd, rydym yn awyddus i'ch gweld yn cynnwys partner digidol yn y cam cynnar hwn yn y broses.

Yn rhan 2 byddwn yn ystyried cynigion am **brosiectau ymchwil weithredol** a ddatblygwyd yn llawn ar gyfer y tymor hwy .

Mae'n bosibl bod gennych syniad mawr cyflawn, bod gennych bartneriaid sy'n fodlon cydweithio â chi a'r cwbl sydd arnoch ei angen yw'r arian. Yn y fath sefyllfa, nid oes raid ichi ymgeisio am ran 1.

Ein nod yw cadw'r gwaith papur i'r lleiafswm a galluogi pawb yn y broses i ganolbwyntio ar ddatblygu syniadau cyffrous. Serch hynny, bydd yn rhaid ichi lenwi ffurflen gais ar-lein, a darparu tystiolaeth ategol sy'n amlinellu'n glir eich syniadau a buddion a chostau'r prosiect.

Ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygiad, hoffem ichi gynnwys y canlynol:

- Disgrifiad o'r hyn yr ydych am ei wneud
- Manylion y sefydliadau/unigolion y maent eisoes wedi ymrwymo i gydweithio â chi neu'r rhai yr ydych yn bwriadu siarad â hwy yn y gobaith o'u cynnwys. (Da o beth fyddai cael gwybod pam yr ydych wedi dewis y rhai yr ydych wedi'u dewis)
- Pwy fydd eich cynulleidfa darged?
- Y buddion disgwyliedig i'r rhai sy'n cymryd rhan
- Y gyllideb a'r amserlen amcangyfrifedig i'ch ymchwil a datblygiad
- Faint o arian yr ydych yn ei geisio gennym?

Ar gyfer prosiect ymchwil weithredol a ddatblygwyd yn llawn, hoffem ichi gynnwys y canlynol:

- Disgrifiad llawn o'r rhaglen arfaethedig
- Manylion am bob sefydliad/unigolyn sy'n ymwneud â'r prosiect a'u swyddogaethau yn y rhaglen. (Bydd yn rhaid ichi nodi'n glir y sefydliad arweiniol)
- Pwy fydd eich cynulleidfa darged ac unrhyw dargedau o ran pobl newydd a'r rhai sy'n dychwelyd
- Cynllun i werthuso llwyddiant ac effaith y rhaglen, gan gynnwys y buddion i'r rhai sy'n cymryd rhan
- Cyllideb ac amserlen fanwl i'r rhaglen, gan gynnwys dyddiadau dechrau a diweddu (os ydynt yn hysbys)
- Faint o arian yr ydych yn ei geisio gennym.
- Manylion unrhyw arian ychwanegol neu bartneriaeth sydd gennych tuag at y rhaglen

## Pwy all ymgeisio?

Nod y prosiect hwn yw datblygu cynulleidfaoedd newydd ar gyfer y Celfyddydau yn hytrach na chynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgyfranogol. Ar gyfer y cam hwn o'r broses, **dim ond gan leoliadau cyflwyno megis theatrau, canolfannau celfyddydol, orielau a lleoedd tebyg eraill y byddwn yn derbyn ceisiadau.** Serch hynny, rydym yn disgwyl i ymgeiswyr gydweithio ag eraill a chroesawn gynigion oddi wrth leoliadau sy'n gweithredu'n bartneriaid arweiniol mewn partneriaeth â chwmnïau cynhyrchu neu ag asiantaethau eraill.

Byddwn hefyd yn croesawu cynigion sy'n cynnwys elfennau o waith ymgyfranogol cyn belled bod y cynigion yn dangos yn glir sut y bydd hyn yn arwain at gynyddu cynulleidfaoedd.

## Amserlen Ariannu

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun 5 Ionawr 2015. Ni ellir ystyried ceisiadau hwyr.

Cynhelir y cyfarfod penderfynu ddydd Gwener 9 Ionawr 2015 a rhoddwn wybod ichi am y penderfyniad am eich cais cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Cofiwch fod yn rhaid i'ch prosiect feddu ar ddyddiad dechrau yn gynnar yn 2015 a dim hwyrach na 1 Ebrill 2015 er mwyn iddo fod yn gymwys i gael ei ariannu gennym.

## Yr hyn a ddisgwyliwn oddi wrthych

Nod y rhaglen yw profi ffyrdd newydd o weithio a dysgu oddi wrth y ffyrdd hyn. Rydym am sicrhau hyrwyddo a rhannu syniadau llwyddiannus. Felly byddwn yn gofyn i bawb sy'n cael ein harian i roi inni adroddiad cynhwysfawr gan gynnwys tystiolaeth weledol a manylion ariannol ar ddiwedd eu prosiectau. Os ydych wedi ymgymryd â rhaglen lawn byddwn yn disgwyl ichi gyflwyno adroddiad gwerthuso llawn.
Gyda'r mentrau a fydd yn digwydd dros flwyddyn a rhagor, byddwn yn gofyn ichi ddarparu adroddiadau yn y cyfamser am yr hyn a gyflawnir ar hyd y daith a'ch amcanestyniadau ar gyfer y prosiect.

## A oes gennych ddiddordeb?

I ymgeisio am arian, bydd yn rhaid ichi lenwi ffurflen gais. Nid yw hyn ar gyfer arian cyffredinol y Loteri, felly bydd yn rhaid ichi gysylltu â ni ar gyfer dolen berthnasol neu ni allwn brosesu eich cais.

Byddwn yn gofyn ichi uwchlwytho gwybodaeth ategol, gan gynnwys cyllideb brosiect a chynnig byr (nid yn hwy na dwy ochr o bapur A4) sy'n nodi'n glir fuddion y prosiect.

I gael dolen i'r ffurflen gais ar gyfer arian strategol, gellwch gysylltu naill ai â:

Amanda Loosemore, Rheolwr Portffolio, Ymgysylltu ac Ymgyfranogi
E-bost: amanda.loosemore@celfcymru.org.uk
Ffôn: 01267 230337

Neu

Lisa Williams, Cydlynydd Tîm, Ymgysylltu ac Ymgyfranogi
E-bost: lisa.williams@celfcymru.org.uk
Ffôn: 029 2044 1349